02.03.2021

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Mark Drakeford yn agor cil y drws ar ei rôl fel Prif Weinidog mewn Pandemig

Heb os, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol i bawb, gyda phryder cyson am iechyd a llesiant ein teuluoedd, addysgu o'r cartref neu addasu i newidiadau yn ein sefyllfa gwaith. Rhwng pob adolygiad o'r cyfyngiadau, rydym yn byw mewn gobaith bod pethau ar fin gwella.

Gyda chymaint yn y fantol, tybed sut deimlad yw bod y person sy'n dal yr allwedd i'r cyfan, yr unigolyn sy'n gyfrifol am arwain ein cenedl trwy gyfnod Covid-19 a'n tywys trwy dirwedd anwastad ac ansicr?

Bydd **Prif Weinidog mewn Pandemig** yn datgelu'r cyfan. Bydd y rhaglen ddogfen, sydd ar S4C am 9.00 nos Sul, yn rhoi cyfle unigryw am gipolwg tu ôl y llen ar fywyd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, y dyn sydd â'n dyfodol yn ei ddwylo.

Gyda chamerâu yn ei ddilyn ers y 1af o Fedi 2020, dyma'r mynediad cyntaf i'w fywyd dyddiol hectic. Mae'n rhaid felly gofyn pam cytuno i'r syniad?

Ymateb Mark Drakeford yw; "Rydym ni'n byw mewn cyfnod mor anghyffredin, rwy'n meddwl ei fod yn werth cael rhyw fath o record o beth sy'n mynd ymlaen o fewn y Llywodraeth. Does dim byd i'w guddio, felly mae'r camera yn gallu gweld beth bynnag mae'r camera eisiau weld."

Wrth ganiatáu i'r camera ei ddilyn tu ôl i ddrysau caeedig mae siawns y bydd rhai yn gwylio yn geg agored wrth fod yn bry ar y wal mewn cyfarfodydd pedwar gwlad a thrafodaethau gyda'r cabinet.

Bydd cyfle i ddarganfod mwy am y rhesymeg dros benderfyniadau dadleuol a chlustfeinio ar drafodaethau a arweiniodd at weithredoedd gan ein Llywodraeth, fel y clo annisgwyl cyn y Nadolig.

Ond er bod cyfle i ddod i adnabod Mark Drakeford mewn ffordd mwy personol, mae ambell gwestiwn anodd yn codi. Beth yw barn y Prif Weinidog am arweinwyr eraill Y Deyrnas Unedig? Sut un yw'r berthynas rhwng y pedwar gwlad?

Cawn hefyd wybod mwy am yr effaith mae ei waith yn cael ar ei deulu, beth mae Mr Drakeford yn gwneud i ymlacio, sut fos yw e a sut mae'n teimlo am gael ei feirniadu?

“Mae llawer o bobl  yn anghytuno gyda beth ni'n neud, ond os wyf i'n dod i ddiwedd y dydd, ac rwy'n gallu meddwl fy mod wedi gwneud fy ngorau glas, wel, dwi'n gallu cysgu'r nos.

“Beth y'n ni wedi dysgu dros y cyfnod Coronafeirws i gyd yw, pan mae Cymru yn gwneud rhywbeth yn gyntaf cyn y gwledydd eraill, mae'n anodd. Achos mae'r holl gwestiynau yn dod atom ni; pam? Ble mae'r dystiolaeth?”.

Yn sicr, mae **Prif Weinidog mewn Pandemig** yn amlygu faint o bwysau sydd ar ysgwyddau Mark Drakeford, ac mae'n gyfle digynsail i ddeall mwy am rai o'r penderfyniadau sydd wedi ysgwyd y wlad.

Dyma'r cyfnod fydd yn diffinio gyrfa Mark Drakeford, wrth iddo wneud y swydd y bu'n breuddwydio amdani ers ei blentyndod, pan yn canfasio gyda'i dad dros y Blaid Lafur yng Nghaerfyrddin yn ystod y 1960au. A dyma eich cyfle chi i ddod i adnabod mwy ar y dyn tu ôl y penderfyniadau.

**Mark Drakeford; Prif Weinidog mewn Pandemig**
**Nos Sul 7 Mawrth, 9.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Zwwm Films ar gyfer S4C**

02.03.2021

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Mark Drakeford lifts the lid on being a First Minister during a Pandemic

The past year has undoubtedly been challenging for us all, with constant concern for the health and well-being of our families, home schooling and / or adapting to changes in our work situation. In Wales, we live in hope things will improve at each review of the restrictions.

With so much at stake, have you ever wondered what it feels like to be the person who holds the key to it all? Or to be the person responsible for leading our nation through the Covid-19 crisis and guide us through such uncertain times?

**Prif Weinidog mewn Pandemig** (*First Minister in a Pandemic)* reveals all. The documentary, to be aired on S4C at 9.00 pm on Sunday, provides a behind the scenes look at the life of the man who has our future in his hands, First Minister, Mark Drakeford.

With cameras following him since September 1 2020, this is the first time such access has been granted into his hectic daily life. But why agree to the idea?

Mark Drakeford says; "We live in such an unusual time, I think it's worth having some sort of record of what's going on within Government. There's nothing to hide, so the camera can see whatever the camera wants to see."

By allowing a film crew behind doors that are usually closed, being party to four-country meetings and cabinet discussions may leave some viewers aghast.

Find out more about the rationale for controversial decisions and eavesdrop on discussions that drove substantial actions from the Government, such as the unexpected lock-down before Christmas.

But while there is an opportunity to get to know Mark Drakeford in a more personal capacity, a few difficult questions arise. What is the First Minister's opinion of other leaders in the United Kingdom? What is the relationship between the four countries really like?

We also find out about the impact his role has on his family, what he likes to do to relax, what kind of boss he is and how he feels about being judged.

“Many people disagree with what we do, but if I reach the end of the day and I can say ‘I've done my best’, well, I can sleep at night.

“What we've learned over the Coronavirus period is, when Wales does something first, before the other countries, it's difficult because of all the questions; why? Where is the evidence?”.

**Prif Weinidog mewn Pandemig** certainly highlights the pressure Mark Drakeford is under and gives an unprecedented opportunity to know more about some of the decisions that have shaken the country.

This is a career defining period for Mark Drakeford, as he fulfills the job he has dreamed of since he was a child in the 1960s, canvassing for the Labour Party in Carmarthen with his father. And this is your chance to get to know the man behind the decisions.

**Prif Weinidog mewn Pandemic**

**Sunday 7 March, 9.00**
**English subtitles available**
**On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Zwwm Films production for S4C**